# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(202)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE (60 munud) NDM5518 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol]
[Ymateb Llywodraeth Cymru] [Saesneg yn unig]

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (60 munud)**
**NDM5519 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2014.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5520 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ddigidol, ac yn datblygu seilwaith i'w chynnal.

2. Yn gresynu at y ffaith bod ardaloedd yng Nghymru o hyd lle nad oes fawr ddim darpariaeth band eang neu 3G, os o gwbl, a'r effaith andwyol y mae hyn yn ei chael ar fusnesau ac unigolion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion ynghylch sut y bydd y £12 miliwn o’r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cyflymu Cymru yn cael ei ddyrannu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith mai Cymru sydd â'r gyfran fwyaf o safleoedd mewn mannau gwan posibl ac mai yng Nghymru y mae'r argaeledd isaf o ran gwasanaethau band eang cyflym iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y penderfyniad i gynnig gwasanaeth band eang Ffeibr i'r Cabinet yn hytrach na gwasanaeth Ffeibr i'r Safleoedd.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau ar waith i gyflwyno band eang cyflym iawn i'r 4% o safleoedd na fyddant yn cael eu gwasanaethu gan ymrwymiadau presennol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ac annog busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd y mae cysylltedd digidol yn eu cynnig.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gynllun cyflwyno er mwyn cael darpariaeth 4G lawn ledled Cymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (North Wales)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i roi diwedd ar honiadau camarweiniol gan gwmnïau band eang sy'n gweld cwsmeriaid yng Nghymru yn talu am wasanaeth cyflym nad ydynt yn gallu ei gael.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5517 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Atebolrwydd rheolwyr GIG Cymru

Archwilio rôl a chyfrifoldeb byrddau a swyddogion y GIG o ran cyflenwi gofal diogel ac effeithiol yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mai 2014 i'w hateb ar 4 Mehefin 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

1. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i gynorthwyo hyrwyddo cynnyrch Cymreig i ddefnyddwyr yng Nghymru? OAQ(4)0160(NRF)

2. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith beicio oddi-ar-y-ffordd anghyfreithlon ar dir comin yn Nhorfaen? OAQ(4)0167(NRF)

3. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant cig coch yng Nghymru? OAQ(4)0164(NRF)

4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru tuag at ddileu TB gwartheg? OAQ(4)0152(NRF)

5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd coedwigaeth i'r economi wledig hirdymor? OAQ(4)0161(NRF)

6. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymdrin â chlymog Japan ? OAQ(4)0155(NRF)

7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol? OAQ(4)0154(NRF)

8. Leighton Andrews (Rhondda): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys cymunedau mewn ailgylchu? OAQ(4)0163(NRF)

9. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar archwilio ac echdynnu nwy anghonfensiynol? OAQ(4)0166(NRF)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgarwch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r sector bwyd? OAQ(4)0162(NRF)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau ailgylchu? OAQ(4)0165(NRF)

**12. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0156(NRF)

**13. Elin Jones (Ceredigion):** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu hystyried o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig i gynorthwyo amaethwyr rhostir? OAQ(4)0157(NRF)**W**

**14. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ragolygon y diwydiant coed meddal yng Nghymru? OAQ(4)0153(NRF)**W**

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith atgyweirio i amddiffynfeydd arfordirol yn dilyn stormydd gaeaf 2014? OAQ(4)0159(NRF)

## Gofyn i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

**1. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am y gofynion diogelwch tân ar gyfer tai amlfeddiannaeth? OAQ(4)0396(HR)

**2. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyfyngu ar y defnydd o Sail 8, Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru hyd nes ei diddymu yn y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) arfaethedig? OAQ(4)0407(HR)

**3. Lynne Neagle: (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd i liniaru effaith y Dreth Ystafell Wely ar denantiaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0410(HR)

**4. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau sy'n cael eu cymryd i leihau nifer y cartrefi gwag yng Nghymru? OAQ(4)0398(HR)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cartrefi llai sydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru ers 2010? OAQ(4)0405(HR)

**6. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd tai yn y sector rhentu preifat yng Nghymru? OAQ(4)0408(HR)

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir i denantiaid mewn ardaloedd poblog iawn? OAQ(4)0409(HR)

**8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0403(HR)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y caniatadau cynllunio ôl-weithredol a roddwyd yn ystod 2011-2013? OAQ(4)0399(HR)

**10. Keith Davies (Llanelli):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl ddigartref? OAQ(4)0406(HR)**W**

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o aelodau o fyrddau cymdeithasau tai yng Nghymru sy'n fenywod sydd wedi eu cofrestru'n anabl? OAQ(4)0402(HR)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pŵer newydd arfaethedig i gynghorau lleol gyflawni eu dyletswydd o ran digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat? OAQ(4)0397(HR)

**13. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran adfywio canol trefi? OAQ(4)0401(HR)

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu cynllun Cymorth i Brynu Cymru? OAQ(4)0400(HR)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Cymorth i Brynu Cymru? OAQ(4)0404(HR)